Adroddiad ar gyfer

St Winefride's Preschool

St Winefrides Catholic School
Whitford Street
Treffynnon
CH8 7NJ

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## St Winefride's Preschool

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | St. Winefride's Preschool |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Louise Williams |
| Person â chyfrifoldeb | Veronica Ecob a Louise Williams |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 25 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.15am a 3.15pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23/01/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/06/2018 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 12/05/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br><br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br><br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhelliad

A1 Gwella defnydd yr ymarferwyr o'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau chwarae ac fel rhan o'r drefn o ddydd i ddydd er mwyn datblygu sgiliau llafaredd Cymraeg y plant.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â'r cysylltiadau pontio cryf, i'w chyhoeddi ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Rhagorol

Mae'r plant yn ddiogel ac yn hapus ac maent yn cael cyfleoedd rhagorol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drwy gydol eu hamser yn y lleoliad cyn-ysgol. Maent yn dewis ble i chwarae a ph'un a ydynt am ymuno â gweithgareddau grŵp ai peidio. Mae bron pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando ar eu syniadau a'u barn. O ganlyniad, mae'r plant yn rhyngweithio'n bwrpasol ac yn effeithiol yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd, fel golchi eu dwylo cyn bwyta a brwsio eu dannedd. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae bron bob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn cyfleu eu hanghenion. Mae'r plant sy'n meddu ar sgiliau cyn llefaru yn defnyddio ystumiau clir i fynegi eu hanghenion ac maent yn cael cymorth ar unwaith gan y staff sy'n hynod ymatebol.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus iawn ac wedi setlo. Maent yn ymdopi'n eithriadol o dda wrth ffarwelio â'u rhieni a'u gofalwyr ac yn symud yn hyderus rhwng gweithgareddau. Maent yn hyderus i fynd at yr ymarferwyr a mynegi eu hunain, er enghraifft, gan ddweud wrth y staff am ddigwyddiadau yn eu bywyd gartref wrth chwarae neu yn ystod amser cinio.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Cânt nifer o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac i chwarae gyda grwpiau o ffrindiau, ac maent yn gwneud hynny'n llawn brwdfrydedd a boddhad. Mae rhai o'r plant yn dechrau dangos empathi tuag at eraill. Er enghraifft, maent yn mynd at eu ffrindiau ar ôl iddynt gwympo i sicrhau nad ydynt wedi brifo. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn barod iawn i fynd at yr ymarferwyr i gael cymorth a chysur ac mae'r ymarferwyr yn eu canmol yn rheolaidd am eu hymdrechion. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn canmol y plant sy'n aros eu tro i chwarae gyda'r hambwrdd dŵr am fod yn amyneddgar.

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig sy'n mwynhau'r cyfleoedd gwerthfawr a chyffrous a gânt i chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu ysgogol ac yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus. Mae bron pob un o'r plant yn canolbwyntio'n dda ac yn dangos sgiliau datrys problemau cadarn wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, pan nad oedd siswrn yn gweithio'n effeithiol wrth dorri llun, aeth rhai o'r plant at y fasged sisyrnau'n annibynnol i ddod o hyd i bâr arall a oedd yn gweithio. Ar ôl cwblhau'r dasg yn llwyddiannus, gwnaethant ddangos ymdeimlad cryf o falchder yn eu cyflawniad.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin annibyniaeth a sgiliau hunangymorth cynyddol. Mae'r rhan fwyaf yn gwisgo ac yn tynnu eu hesgidiau a'u dillad yn annibynnol, yn ogystal â rheoli eu gofal personol eu hunain. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn annibynnol ac yn cael eu hannog gan y staff i olchi eu dwylo pan fydd angen. Mae bron pob un o'r plant iau yn bwydo eu hunain ac yn defnyddio cyllyll a ffyrc yn annibynnol, ac mae eu diodydd ar gael iddynt drwy gydol y dydd.

### Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae llawer o'r plant yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio brawddegau syml. Er enghraifft, maent yn siarad am eu teuluoedd ac yn disgrifio'r hyn y maent yn mwynhau bwyta gartref. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu cariad at ddarllen. Maent yn dangos mwynhad wrth wrando ar straeon sy'n cael eu darllen gan yr ymarferwyr ac yn rhannu llyfrau â ffrindiau, gan siarad yn frwdfrydig am y lluniau. Mae rhai o'r plant yn rhagfynegi geiriau allweddol yn '*We're Going on a Bear Hunt*' yn gywir ac yn esbonio diwedd y stori yn hyderus i oedolyn. Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau gwneud marciau pwrpasol. Maent yn arbrofi â gwahanol gyfryngau fel pensiliau, paent a sialc i greu lluniau ohonynt eu hunain ac mae rhai o'r plant yn dechrau ffurfio'r llythrennau yn eu henwau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau mathemategol yn dda. Maent yn archwilio'r cysyniad o gynhwysedd wrth iddynt lenwi a gwagio cynwysyddion gan ddefnyddio dŵr a thywod. Mae llawer o'r plant yn dechrau deall y cysyniad o amser a threfn drwy'r drefn o ddydd i ddydd sy'n gyfarwydd iddynt, fel gwybod bod amser cinio yn dilyn ar ôl iddynt olchi eu dwylo. Mae'r mwyafrif o'r plant yn archwilio siapiau dau ddimensiwn ac yn dechrau eu henwi yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn briodol. Maent yn canu caneuon Cymraeg yn ystod amser cylch ac yn ymateb yn gadarnhaol i ymadroddion syml drwy gydol y dydd.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau'n fedrus, fel sisyrnau i dorri papur a thoes chwarae, gan ddangos sgiliau motor manwl da. Mae bron pob un o'r plant yn chwarae'n egnïol ac yn datblygu eu sgiliau motor bras yn dda. Er enghraifft, maent yn dringo, yn defnyddio'r siglen ac yn cydbwyso'n hyderus yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu dychymyg yn dda ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau chwarae rôl dychmygus, fel esgus coginio prydau bwyd yn y gornel gartref. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau creu gwaith celf dau ddimensiwn a thri dimensiwn, er enghraifft drwy greu

modelau o'u cartrefi a'u gerddi. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos sgiliau digidol effeithiol ac yn defnyddio dyfeisiau'n annibynnol i dynnu ffotograffau o bethau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau personol yn dda. Maent yn gwisgo ffedogau cyn chwarae â dŵr ac yn golchi eu dwylo cyn amser bwyd. Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol ac yn cydweithio'n llwyddiannus ag eraill. Er enghraifft, maent yn rhannu adnoddau ac yn cymryd eu tro yn ystod gweithgareddau. Mae llawer o'r plant yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth chwarae ac wrth wynebu heriau. Er enghraifft, maent yn ymarfer cydbwyso ar gwrs rhwystrau yn yr awyr agored nes eu bod yn llwyddo. Maent yn rheoli eu risgiau eu hunain yn fedrus wrth chwarae, er enghraifft, wrth ddringo llethr glaswellt yn annibynnol a phenderfynu sut i ddod i lawr yn ddiogel.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae'r ymarferwyr yn llawn cymhelliant, yn fedrus ac yn angerddol wrth ddarparu gofal rhagorol a chefnogi'r plant i gyrraedd eu llawn botensial. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch yn drylwyr. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn sylwgar pan fyddant yn chwarae â dŵr, gan sychu unrhyw ddŵr sydd ar y llawr er mwyn atal unrhyw un rhag llithro a chwympo. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau amrywiaeth o gyrsiau gwahanol i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac maent yn rhoi'r hyn y maent yn ei ddysgu ar waith i safon uchel. Maent yn dilyn canllawiau arfer gorau mewn perthynas â diogelu plant. Caiff gwybodaeth allweddol ei harddangos ar gefn eu laniardiau, gan sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu bob amser ar gael iddynt i'w helpu i gadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddynt wybodaeth glir am faterion diogelu ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn drylwyr. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau y caiff anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi'n gywir. Mae'r holl gofnodion yn cael eu rhannu â'r rhieni a'r gofalwyr, ac mae'r ymarferwyr yn monitro'r cofnodion i nodi unrhyw batrymau neu dueddiadau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn eithriadol o dda. Maent yn rhoi'r polisi ymddygiad ar waith mewn ffordd gyson, deg a phwyllog, gan greu ethos cadarnhaol ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol drwy ganmol ac annog y plant. Maent yn rhoi'r polisi ymddygiad ar waith mewn ffordd gyson, deg a phwyllog, gan greu ethos cadarnhaol ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn rhoi strategaethau ar waith sy'n cefnogi ymddygiad y plant yn dda. Maent yn gweithio mewn ffordd sensitif â'r plant i ddatrys unrhyw faterion, ac yn gweithredu'n brydlon er mwyn atal anghydfodau rhag gwaethygu.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth hynod effeithiol i'r plant. Maent yn hyblyg ac yn rhoi syniadau ac anghenion y plant wrth wraidd eu hymarfer. Maent yn ymateb yn gyson i syniadau'r plant, yn gwrando'n astud ac yn parchu eu barn. O ganlyniad, mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol iawn ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd gwirioneddol.

Mae'r ymarferwyr yn fagwrus, yn sensitif, ac yn ymwybodol iawn o anghenion y plant sy'n cael gofal ganddynt. Mae system gweithwyr allweddol cryf ar waith, ac mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn eithriadol o dda, sy'n eu galluogi i ymateb i anghenion y plant yn gyflym. Mae'r ymarferwyr yn nodi unrhyw blentyn y gall fod ganddo anghenion dysgu ychwanegol sy'n dod i'r amlwg, ac yn ei gefnogi'n dda. Maent yn darparu gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer oedrannau, camau datblygiad ac anghenion unigol y plant. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Maent yn darparu cymorth wedi'i bersonoli ac yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion y plant yn llwyddiannus.

## Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant yn effeithiol drwy eu rhyngweithio a'r profiadau y maent yn eu darparu. Er enghraifft, maent yn annog y plant i siarad am eu teuluoedd a'r bwyd y maent yn hoffi ei fwyta wrth chwarae yn y gornel gartref. Mae'r ymarferwyr yn ymateb i ddiddordebau'r plant ac yn ehangu eu dysgu'n dda wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn cynnig adnoddau newydd fel pwmp dŵr a chwisg llaw i helpu'r plant i archwilio sut y caiff swigod eu creu. Maent yn sicrhau bod llyfrau ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r amgylchedd dan do, sy'n hyrwyddo mwynhad y plant o straeon a llyfrau yn dda. Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau diddorol ac ysgogol, fel gwneud stiw brigau a the blodau yn y gegin fwd, sy'n rhoi cyfleoedd i'r plant arbrofi ag adnoddau a datblygu eu creadigrwydd yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n gyson dda fel tîm ac maent yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda. Maent yn arddangos gweithgareddau'n llwyddiannus, gan chwarae ochr yn ochr â'r plant yn yr ardaloedd gwahanol o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn helpu bron pob un o'r plant i gynnal diddordeb yn eu chwarae am gyfnodau hir o amser. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut mae plant yn dysgu drwy chwarae ac maent yn rhoi gofynion y Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llwyddiannus. Maent yn nodi diddordebau a chwilfrydedd y plant ac yn ymateb iddynt, gan addasu eu profiadau dysgu'n briodol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth addas o ymadroddion a chaneuon Cymraeg, er enghraifft, wrth gyfarch y plant wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg y plant wrth iddynt chwarae ac fel rhan o'r drefn

o ddydd i ddydd. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am dreftadaeth Cymru. Er enghraifft, maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy wisgo i fyny a blasu cacennau cri. Hefyd, mae'r ymarferwyr yn arddangos ffotograffau o gestyll Cymru a thirnodau lleol, sy'n helpu'r plant i feithrin dealltwriaeth o'u hardal leol ac o Gymru.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o amrywiaeth eang o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau ymweld â siopau lleol, y llyfrgell, yr eglwys, y parc a'r amgueddfa lle y gallant chwarae â theganau o'r gorffennol. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar eu hymdeimlad o berthyn, eu dealltwriaeth o'r lleoedd yn eu cymuned ac o wrthrychau o'r gorffennol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu priodol sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am y byd naturiol o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn tyfu blodau ac yn siarad am adar y maent yn eu gweld a thrychfilod y maent yn dod o hyd iddynt. Maent yn darparu adnoddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau ac yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddysgu am draddodiadau gwahanol. Er enghraifft, maent yn dathlu ac yn dysgu am y gwyliau sy'n bwysig i'w teuluoedd fel Diwali, y Pasg a'r Nadolig.

Mae amrywiaeth o weithdrefnau asesu gwerthfawr ar waith yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant ac yn nodi'r hyn y gallant ei wneud yn barod yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y lleoliad. Maent yn cofnodi arsylwadau'n rheolaidd er mwyn monitro cynnydd y plant ac yn rhannu'r wybodaeth hon â'r rhieni yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy ap ar-lein. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol i lywio profiadau yn y dyfodol ac i nodi'r camau dysgu nesaf priodol.

## Yr Amgylchedd: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn cynnal amgylchedd sy'n eithriadol o ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cofnod cywir o'r holl ymwelwyr yn cael ei gadw. Maent wedi datblygu asesiadau risg clir ar gyfer gwahanol ardaloedd a gweithgareddau a gaiff eu rhannu â'r staff a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn dilyn systemau cadarn i wirio teganau, cyfarpar ac adnoddau'n rheolaidd i'w cadw'n lân ac mewn cyflwr rhagorol. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r ymarferwyr fel bod y plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus bob amser ac maent yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Maent yn trefnu adolygiadau rheolaidd o'r mesurau diogelwch, ar y cyd â'r ymarferwyr a'r ysgol leol, lle mae'r gwasanaeth wedi'i leoli. Mae cofnodion o wiriadau diogelwch ar gael a chânt eu rhannu â'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu diddorol. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael gofal ac addysg mewn amgylchedd sydd wedi'i gynllunio a'i drefnu'n ofalus i

hyrwyddo eu hannibyniaeth a chefnogi eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn annog creadigrwydd y plant drwy roi adnoddau bywyd go iawn yn eu cornel chwarae rôl cartref. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn bwrpasol er mwyn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall yn annibynnol drwy gydol y dydd. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu ardal chwarae awyr agored fawr gydag amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd pwrpasol a chyffrous er mwyn i'r plant ddatblygu eu chwilfrydedd a'u sgiliau corfforol, wrth iddynt symud o gwmpas yn rhydd ac yn hawdd.

Mae'r amgylchedd yn llawn adnoddau a dodrefn amlbwrpas o ansawdd uchel. Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau ar lefel isel, sy'n golygu y gall y plant gael gafael arnynt yn llwyddiannus a chwarae'n annibynnol. Mae'r arddangosiadau deniadol yn dangos ffotograffau o'r plant, eu gwaith a'u cyflawniadau. Mae hyn yn cefnogi ymdeimlad o berthyn ac yn hyrwyddo hunan-barch y plant yn dda. Mae'r arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau chwarae a dysgu yn effeithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant, gan gynnwys amrywiaeth a threftadaeth Cymru. Mae hyn yn meithrin dealltwriaeth y plant o'r byd yn dda. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o adnoddau, teganau a llyfrau ar gael a'u bod yn addas ac yn lân, sy'n golygu y gall yr ymarferwyr baratoi gweithgareddau yn hyderus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac yn cyfleu hyn yn effeithiol i'r teuluoedd a'r ymarferwyr. Maent yn rhoi eu gweledigaeth ar waith yn llwyddiannus i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, magwrus, cynhwysol a llawn hwyl, lle gall y plant ddysgu a chwarae'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r holl blant yn defnyddio'r amrywiaeth eang o ardaloedd chwarae sydd ar gael sy'n sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau'n llwyddiannus. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, yr ymarferwyr a'r plant.

Mae'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod yr ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus. Mae hyfforddiant diweddar wedi gwella dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r Cwricwlwm i Gymru a phwysigrwydd amgylcheddau dysgu effeithiol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn ymateb yn briodol i ddiddordebau a chwilfrydedd y plant ac yn defnyddio arsylwadau ar arferion chwarae'r plant yn effeithiol i lywio profiadau dysgu yn y dyfodol.

Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cywir sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Maent yn adolygu ac yn diweddaru eu polisïau unigol yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn llawn. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn rheolaidd, gan sicrhau y caiff hysbysiadau eu

cwblhau mewn modd amserol. Mae gan yr arweinwyr a'r rheolwyr ddealltwriaeth ragorol o'u cyfrifoldebau a gwaith y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn cydweithio mewn ffordd gadarnhaol ac yn cefnogi ei gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf iawn i waith tîm ym mhob rhan o'r lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu’r plant. Maent yn sicrhau bod yr holl wiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau ac mae systemau helaeth ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol at ddibenion recriwtio a diogelu. Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefnau sefydlu effeithiol iawn ar waith ar gyfer yr holl ymarferwyr, sy'n eu cefnogi yn eu rolau.

Mae'r arweinwyr yn rhoi proses rheoli perfformiad effeithiol iawn ar waith sy'n annog yr ymarferwyr i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol a rhoi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith. Maent yn cefnogi'r ymarferwyr i nodi cryfderau ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt fyfyrio ar effaith eu gwaith. Mae'r arweinwyr yn cynnal gweithgareddau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac ystyrlon i safon uchel. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r ymarferwyr fyfyrio ar eu hymarfer, trafod unrhyw bryderon a nodi targedau priodol er mwyn cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae'r arweinwyr yn rhoi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella cadarn ar waith. Maent yn casglu safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r ymarferwyr yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon, ochr yn ochr â thystiolaeth uniongyrchol, i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r arweinwyr yn myfyrio'n rheolaidd ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella ac maent yn cymryd camau pwrpasol i roi unrhyw newidiadau angenrheidiol ar waith. O ganlyniad, maent yn gwneud gwelliannau sy'n gwella profiadau dysgu a llesiant y plant.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae'r gwelliannau i'r amgylchedd awyr agored wedi sicrhau y gall y plant ddefnyddio'r ardal awyr agored drwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r plant yn elwa ar gyfleoedd cyfoethog i archwilio, ymchwilio a bod yn egnïol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u datblygiad corfforol.

Mae'r arweinwyr yn datblygu cysylltiadau gwerthfawr â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth â nhw yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cynnal sesiynau aros a chwarae bob tymor er mwyn dangos y cyfleoedd chwarae ac maent yn rhannu gwybodaeth â'r teuluoedd drwy ap ar-lein. O ganlyniad, mae'r teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

Mae'r arweinwyr wedi rhoi trefniadau pontio effeithiol iawn ar waith gyda'r ysgol leol sy'n cefnogi llesiant y plant a'u parodrwydd ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu yn eithriadol o dda. Maent yn gweithio'n agos gyda staff yr ysgol drwy gydol y flwyddyn, gan rannu gwybodaeth fanwl am ddysgu, datblygiad a llesiant y plant. Mae'r plant yn elwa ar

gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau pwrpasol yn yr ysgol, fel cyngherddau, ymweliadau gan anifeiliaid, eisteddfodau a diwrnodau chwaraeon. Mae'r profiadau hyn yn helpu'r plant yn effeithiol iawn i ddod yn gyfarwydd ag amgylchedd, trefn a staff yr ysgol cyn iddynt drosglwyddo i'r cam nesaf yn eu dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant os bydd yr adroddiad hwn yn berthnasol mewn unrhyw iaith, ym mhob achos dan yr amod y caiff ei ailddefnyddio a/neu ei gyfieithu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd, ym mhob achos (gan gynnwys mewn achos o gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2026